# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 7 Gorffennaf 2015** |
| Amser: | **08.30 - 08.53** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'r cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad yn cael eu trefnu ar gyfer 23 Medi, a bob pedair wythnos fusnes ar ôl hynny. Mae hyn er mwyn creu gwell cydbwysedd o ran busnes o ystyried yr amserlen y flwyddyn nesaf ar gyfer Cwestiynau Llafar y Cynulliad, drwy gynnal y cyswllt rhwng cwestiynau'r Comisiwn a chwestiynau'r Cwnsler Cyffredinol.

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 23 Medi 2015**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ystyried Deiseb - Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

## 4 Y Gyllideb

4.1 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2016-17

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes lythyr gan y Gweinidog Busnes y Llywodraeth oedd yn nodi dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2016-17. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch amseriad cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar ei Hadolygiad o Wariant, rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Rheolwyr Busnes y byddai'n anodd ar hyn o bryd i gadarnhau amserlen Cyllideb 2015 gyda sicrwydd.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid gyda dyddiad cau arfaethedig, sef 19 Ionawr 2016, i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar y gyllideb ddrafft.

## 5 Deddfwriaeth

5.1 Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad mewn egwyddor, ar 23 Mehefin, i gyfeirio'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) i'r Pwyllgor Cyllid ar gyfer ei ystyried yng Nghyfnod 1, a chytunwyd ar y dyddiad cau ar gyfer adroddiad y Pwyllgor yng Nghyfnod 1, sef 27 Tachwedd 2015, a'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau trafodion y Pwyllgor yng Nghyfnod 2, sef 5 Chwefror 2016.

## 6 Y Rheolau Sefydlog

6.1 Adolygu Rheolau Sefydlog y Cynulliad

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes bapur a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran y gwahanol adolygiadau o Reolau Sefydlog y Cynulliad hyd yma.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid gohirio cynnal adolygiad o'r Rheolau Sefydlog ar Fraint nes bydd y Bil Cymru wedi cwblhau ei daith seneddol.

Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried a oedd unrhyw feysydd eraill o'r Rheolau Sefydlog yr hoffai eu hadolygu cyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad. Dywedodd, yn ychwanegol at unrhyw faterion a amlygwyd gan adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ddeddfu (sydd i gael ei gyhoeddi yn yr hydref), yr hoffai edrych ar faint a rôl y pwyllgorau.

Mae'r Rheolwyr Busnes yn bwriadu trafod y papur gyda'u grwpiau, ac edrych ar y mater eto yng nghyfarfod cyntaf tymor yr hydref.

## 7 Y Cyfarfod Llawn

7.1 Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad yr Haf

Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y trefniadau cyflwyno arfaethedig ar gyfer toriad yr haf.

**UNRHYW FATER ARALL**

Atgoffodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes y byddai'r gloch yn canu am 11.30 fore dydd Mawrth, ar gyfer munud o dawelwch, i nodi deng mlynedd ers y bomio yn Llundain ar 7/7.